# ATODLEN 7

# PARTNERIAETHAU

## **RHAN 10**

## DEHONGLI

*Eiddo'r bartneriaeth a chyfranddaliad yn y bartneriaeth*

45 (1) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Atodlen hon at eiddo'r bartneriaeth yn gyfeiriad at fuddiant neu hawl a ddelir gan bartneriaeth neu ar ei rhan, neu gan aelodau partneriaeth, at ddibenion y busnes partneriaeth.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Atodlen hon at gyfranddaliad person yn y bartneriaeth ar unrhyw adeg yn gyfeiriad at y cyfranddaliad y mae gan y person hawl iddo ar yr adeg honno wrth rannu elw incwm y bartneriaeth.

*Trosglwyddo buddiant trethadwy*

46 Mae cyfeiriadau yn yr Atodlen hon at drosglwyddo buddiant trethadwy yn cynnwys—

(a) creu buddiant trethadwy,

(b) amrywio buddiant trethadwy, ac

(c) ildio neu ollwng buddiant trethadwy.

*Trosglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth*

47 At ddibenion yr Atodlen hon, trosglwyddir buddiant trethadwy i bartneriaeth mewn unrhyw achos pan fo buddiant trethadwy yn dod yn eiddo'r bartneriaeth.

*Trosglwyddo buddiant mewn partneriaeth*

48 At ddibenion yr Atodlen hon, pan fo person yn caffael neu'n cynyddu cyfranddaliad yn y bartneriaeth trosglwyddir buddiant yn y bartneriaeth (i'r partner hwnnw ac o'r partneriaid eraill).

*Trosglwyddo buddiant trethadwy o bartneriaeth*

49 At ddibenion yr Atodlen hon, trosglwyddir buddiant trethadwy o bartneriaeth mewn unrhyw achos pan fo—

(a) buddiant trethadwy a oedd yn eiddo'r bartneriaeth yn peidio â bod yn eiddo'r bartneriaeth, neu

(b) buddiant trethadwy yn cael ei roi neu ei greu o eiddo'r bartneriaeth ac nad eiddo'r bartneriaeth yw'r buddiant.

*Gwerth marchnadol lesoedd*

50 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â les at ddibenion yr Atodlen hon—

(a) os yw, neu os oedd, rhoi'r les yn drafodiad y mae, neu yr oedd, adran 13 yn gymwys iddo (neu'n drafodiad y byddai paragraff 13 yn gymwys iddo pe bai'r paragraff hwnnw wedi bod mewn grym ar adeg rhoi'r les), neu

(b) os yw rhoi'r les yn drafodiad y mae paragraff 21 yn gymwys iddo.

(2) Wrth bennu gwerth marchnadol y les, mae rhwymedigaeth ar ran y tenant o dan y les i'w hystyried os yw (ond dim ond os yw)—

(a) yn rhwymedigaeth megis y rhai a grybwyllir ym mharagraff 16(1) o Atodlen 6 (rhwymedigaethau tenant nad ydynt yn cyfrif fel cydnabyddiaeth drethadwy), neu

(b) yn rhwymedigaeth i roi taliad i berson.

*Personau cysylltiedig*

51 (1) Mae adran 1122 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (p. 4) (personau cysylltiedig) yn cael effaith at ddibenion yr Atodlen hon.

(2) Fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (1), mae'r adran honno yn cael effaith gan hepgor is-adran (7) (partneriaid sy'n gysylltiedig â'i gilydd).

(3) Fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (1) at ddibenion paragraffau 15, 16, 23 a 24, mae'r adran honno yn cael effaith gan hepgor is-adran (6)(c) i (e) (ymddiriedolwr sy'n gysylltiedig â setliad).

*Trefniadau*

52 Yn yr Atodlen hon mae i "trefniadau" yr ystyr a roddir gan adran 31(3).